



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 20FED EBRILL, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts

Beca Brown
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Gwilym Jones
Hefin Underwood

Beth Lawton
Anne Lloyd-Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol
a'r Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy/n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 09 Chwefror fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD ADRAN ECONOMI A CHYMUNED AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

13 - 25

I ystyried yr adroddiad.

6. ADRODDIAD TIM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

26 - 29

I ystyried yr adroddiad.

PWYLLGOR IAITH: 09 CHWEFROR 2026

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Menna Baines (Cadeirydd)

Anne Lloyd Jones, Jina Gwyrfai, Gwilym Jones, Beth Lawton, Elfed Williams, Beca Brown, Rhys Tudur, Elfed Wyn ap Elwyn a Cai Larsen.

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eraill a Wahoddiwyd: Y Cyngorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol- Gwasanaethau Addysg).

Eitem 6: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Sion Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Tai ac Eiddo).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Meryl Roberts (Is-gadeirydd) Alan Jones-Evans, Hefin Underwood a Gwynfor Owen.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2025 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN ADDYSG AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi ac Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn grynodedb o adroddiad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Gwynedd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2025, gyda diweddariadau pellach.

Tynnwyd sylw at Bolisi Iaith Addysg Gwynedd gan gadarnhau bod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gosod dyletswydd statudol ar y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol ac ysgolion i gynllunio er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd nad yw'r ddeddf yn dod i'w lawn rym hyd oddeutu 2030. Nodwyd mai bwriad yr Adran Addysg a'r Cyngor yw i fod yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod gofynion y ddeddfwriaeth yn cael ei gyfarch.

Esboniwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar ddrafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd, yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr gan Meirion Prys Jones yn ystod 2024/25. Manylwyd bod sesiynau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda Penaethiaid ysgolion, disgyblion, rhieni, fforymau iaith, mudiadau iaith, cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a cynrychiolwyr o Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn llywio datblygiad y Polisi. Cadarnhawyd bod drafft o'r Polisi hwnnw wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2025. Nodwyd y cymeradwywyd y Polisi drafft hwn fel Polisi enghreifftiol a chymeradwywyd yr ymgysylltiad cyhoeddus. Tynnwyd sylw bod y cyfnod o ymgysylltu cyhoeddus wedi cychwyn ers mis Ionawr 2026 gan nodi bydd yn dod i ben ar 25 Chwefror 2026. Ymhelaethwyd y bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet er mwyn cyflwyno adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gofyn am benderfyniad os y dylid mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar ei newydd wedd cyn ei rannu i Gyrrff Llywodraethol, cyn mis Medi 2026.

Mynegwyd balchder bod oddeutu 99% o athrawon ysgolion cynradd ac oddeutu 89% o athrawon ysgol uwchradd yn teimlo'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn cydweithio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i sicrhau bod staff yr ysgolion trosiannol (Ysgol Friars – Bangor, Ysgol Ein Harglwyddes – Bangor ac Ysgol Uwchradd Tywyn) yn derbyn cefnogaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo athrawon i deimlo'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg drwy dderbyn cefnogaeth gan diwtor unwaith bob pythefnos. Mynegwyd balchder bod 17 o staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Tywyn eisoes wedi manteisio ar y ddarpariaeth hon gan gadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sefydlu swydd Tiwtor Dysgu Cymraeg ar gyfer y safle i'r dyfodol.

Adroddwyd bod gwaith yn cael ei gyflawni er mwyn edrych ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. Nodwyd bod y Cyngor yn derbyn Grant y Gymraeg yn flynyddol gan y Llywodraeth a'i fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn hybu gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarthiadau a thu hwnt i oriau'r ysgol. Manylwyd ar gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid gan bwysleisio ei fod yn allweddol yn y maes hwn. Tynnwyd sylw at ddigwyddiadau sydd yn cymryd lle mewn cydweithrediad â'r Siarter Iaith a Grant y Gymraeg. Nodwyd bod ffocws yn cael ei roi ar gyfer digwyddiadau ymarferol ar chymdeithasol megis gorymdeithiau, sesiynau pontio a gigiau. Eglurwyd y defnyddir lleoliadau megis Pontio a Nant Gwrtheyrn er mwyn hwyluso'r gweithgareddau. Mynegwyd balchder bod llawer mwy o ddiddordeb yn yr Ornest Lyfrau nac a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Ymhelaethwyd bod timau o ysgolion ar draws Gwynedd yn cymryd rhan ynddo eleni.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gydag endidau eraill megis Menter Iaith Gwynedd er mwyn sicrhau bod prosiectau fel 'Arwyr Iaith' yn parhau. Nodwyd ei fod yn cael ei gynnal yn Ysgol Abererch ac Ysgol Ffridd y Llyn eleni.

Tynnwyd sylw bod yr Adran hefyd yn cydweithio gyda cwmnïau theatrig megis Arad Goch, sydd yn paratoi perfformiadau o 'Natur' gan Morgan Elwy yn yr wythnosau nesaf. Nodwyd hefyd bod yr Adran yn parhau i gydweithio gyda cwmni Fran Wen.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd i'r Adran am eu gwaith yn Ysgol Uwchradd Tywyn gan nodi bod trafferthion wedi bod er mwyn penodi athrawon sydd yn gallu'r Gymraeg. Eglurwyd mai dim ond oddeutu 4% o'r disgyblion sydd yn dod o gartrefi Cymraeg ond mae'r gymuned yn bositif am yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol. Mewn ymateb, diolchodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi ei fod yn galonogol gweld hyder yr athrawon a'r disgyblion yn cynyddu, gan nodi mai dyma yw'r angen pennaf, nid dysgu'r iaith o'r cychwyn cyntaf, gan nodi hefyd bod perthynas dda gyda'r Ganolfan Drochi yn yr ardal hefyd.

Tynnwyd sylw at brosiect Gwynedd Yfory sydd yn ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc yng Gwynedd, ac awgrymwyd y dylid ystyried a oes angen penodi mwy nag un Swyddog Ieuentid. Nodwyd hefyd bod bylchau yn y ddarpariaeth yn ardaloedd Llŷn a De Meirionnydd gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei gynig i ardaloedd gwledig y Sir ac nid yn unig i'r ardaloedd sydd gyda'r dwysedd poblogaeth uchaf. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi bod bwriad o ehangu strwythur staffio'r gwasanaeth hon. Eglurwyd y gobeithir gwneud hyn drwy asesu'r niferoedd o gyfranogiadau, a defnyddio hyn fel tystiolaeth i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn amlygu'r angen am fuddsoddiad pellach yng Ngwynedd. Nodwyd mai £20,000 sydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol ar gyfer y darpariaeth hon a gobeithir bydd hyn yn cynyddu yn y dyfodol er mwyn denu siaradwyr Cymraeg newydd ac i feithrin yr hyn sydd yn bodoli yng nghymunedau Cymraeg Gwynedd eisoes. Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd bod 21,305 o gyfranogiadau ynghlwm gyda gweithgareddau'r prosiect yn y flwyddyn diwethaf, gan gadarnhau bod y ffigur hwn yn cynnwys unigolion sydd wedi mynychu mwy nag un digwyddiad. Ymhellach, pwysleisiodd y Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg mai darlun rhannol o'r gwasanaethau sydd ar gael yw'r adroddiad hwn, gan ei fod yn manylu ar gwaith yr Adran Addysg. Tynnwyd sylw at fudiadau trydydd sector sydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant a pobl ifanc megis Urdd Gobaith Cymru a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae mesur llwyddiant darpariaethau sy'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n gymdeithasol, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Drochi Gwynedd bod nifer o fforymau yn rhannu barn pobl ifanc am y Gymraeg. Tynnwyd sylw at y Fforwm Ieuentid sydd yn trafod barn a dyheadau pobl ifanc ac hefyd Is-grŵp Pobl Ifanc Fforwm Iaith Gwynedd. Ymhellach, cadarnhaodd bod disgwyliad i'r Cyngor adrodd ar farn pobl ifanc am ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Nodwyd hefyd bod disgyblion yn cyflawni hunanasesiad o fewn yr ysgolion a oedd yn nodi defnydd cymdeithasol o'r iaith megis wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu wrando ar gerddoriaeth. Cydnabuwyd nad oes modd i'r Adran gysylltu gyda cartrefi'r disgyblion i'w holi am defnydd y Gymraeg yno heb gymorth yr ysgolion. Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg nad yw addasu arferion cymdeithasol yn dasg a ellir ei gyflawni yn y byr-dymor gan groesau unrhyw adnodd a ddaw i law er mwyn mynd i'r afael a'r mater. Ystyriwyd y cysyniad o gynnal ymchwil yn achlysurol er mwyn gallu mesur llwyddiant yr ymdrechion hyn.

Nodwyd bod 11% o athrawon ysgolion uwchradd Gwynedd ddim yn teimlo'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg Ategwydbod y ffigur hwn yn gyfran uchel o athrawon uwchradd y Sir, a gofynnwyd a yw'r athrawon hyn yn gweithio yn yr ysgolion trosiannol neu ar draws y sir. Mynegwyd balchder bod nifer o ffynonellau o gefnogaeth ar gael i'r athrawon deimlo'n hyderus i addysgu yn y Gymraeg, gan ofyn a oes modd mesur eu cyflawniad gyda'r ddarpariaeth hyn wrth i'w hyder gynyddu. Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi nad oes modd cadarnhau o ba ysgolion daw'r athrawon dan sylw ond bydd y wybodaeth yn cael ei gylchredeg gyda'r Aelodau pan yn amserol. Manylwyd ar y mathau o gyrsiau sydd yn cael eu cynnal ar gyfer magu hyder gyda'r Gymraeg a'u bod yn cael eu cynnig mewn cydweithrediad â Chanolfan Bedwyr a

Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ac yn ymateb i anghenion unigol a sefyllfaoedd penodol o fewn yr Ysgolion Trosiannol. Nodwyd byddai adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys manylder ar ddatblygiad y ddarpariaeth hon ac yn cynnwys data pendant ar ddatblygiad hyder yr athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ymateb i'r ymholiadau ar ymchwiliadau sydd yn cael eu gwneud ar ddefnydd y Gymraeg yn gymdeithasol, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod Rhwydwaith Iaith WISERD wedi cael ei ail-sefydlu yn ddiweddar gan Brifysgolion Cymru. Cadarnhawyd bod y Prifysgolion yn awyddus i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi mewnbwn ar y mathau o wybodaeth y dymunir ei gasglu a bod cyswllt gydag ymarferwyr polisi mewn awdurdodau lleol.

Mewn ymholiad i weld os oes bwriad i sefydlu mwy o aelwydydd cymunedol yr Urdd yn sgil y newyddion bod Eisteddfod yr Urdd yn dod i Eryri yn 2028, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg mai 5 aelwyd gymunedol sydd yn weithredol ar hyn o bryd. Cydnabuwyd ei fod yn her sylweddol i gynyddu'r niferoedd hyn oherwydd y gofyn sydd ar wirfoddolwyr i'w cynnal. Fodd bynnag, nodwyd nad oes modd ymhelaethu ar y bwriad i ehangu'r niferoedd aelwydydd cymunedol hyn nac y niferoedd sydd yn eu mynychu gan ei fod yn ddarpariaeth sydd yn cael ei gefnogi gan yr Urdd.

Cefnogwyd bwriad y Cyngor a'r Adran Addysg i fod yn rhagweithiol i gydymffurfio â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Tynnwyd sylw bod gan yr Adran gynlluniau i ymestyn yr iaith Gymraeg ymysg siaradwyr cynhenid, gan ofyn am fanylder am y cynlluniau hynny. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi bod yr Adran yn cydweithio gyda Agored Cymru sydd yn rhoi mynediad i blant hŷn at brofiadau ymarferol yn eu cymunedau, drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd bod y cynllun hwn yn rhoi'r cyfle iddynt siarad Cymraeg yn naturiol a chymdeithasol gyda gweithlu Cymreig. Nodwyd bod Agored Cymru yn cynnal sesiynau sydd yn cyd-redeg â chyrsgiau TGAU Ymarferol gan ennyn hyder yn yr iaith a sicrhau ei fod yn cael ei siarad yn y gweithle. Cyfeiriwyd hefyd at gynllun cyffroes mewn cydweithrediad a chwmni Adnodd, sydd yn edrych i sicrhau bod cadernid iaith, mynediad at safonau dealladwy a safonol tra hefyd yn uchelgeisiol wrth ystyried y posibiladau i'r dyfodol.

Atgoffwyd bod y swyddogion wedi adrodd bod lefelau staffio o fewn y gwasanaeth seicoleg addysgol yn bryderus yn 2025, ac holiwyd os yw'r sefyllfa yn parhau i fod yn heriol. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi bod y pryder hyn yn parhau yn anffodus. Fodd bynnag, nodwyd bod seicolegwyr dan hyfforddiant wedi cael eu penodi gan obeithio bydd y pryderon hyn yn cael eu lleddfu yn y dyfodol agos unwaith maent yn cymhwyso yn seicolegwyr cofrestredig. Pwysleisiwyd bod y pryder hwn yn un cenedlaethol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth. Gobeithiwyd bydd modd hyfforddi mwy o seicolegwyr addysg gyda chefnogaeth Prifysgol Bangor, wrth i'r cymhwyster cael ei gynnig yno, yn hytrach na drwy Prifysgol Caerdydd yn unig.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

6. ADRODDIAD YR ADRAN TAI AC EIDDO AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Tai ac Eiddo ac yr Uwch Swyddog Gweithredol. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod dros 11,300 o unigolion lleol wedi derbyn cymorth a chefnogaeth drwy wahanol ffyrdd yn sgil Cynllun Gweithredu Tai yr Adran. Nodwyd bod y cymorth hyn yn cynnwys grant, eithriad treth Cyngor er mwyn adnewyddu tŷ gwag, benthyciad drwy Cynllun Prynu Cartref, llety a chefnogaeth drwy cynlluniau digartref neu grant i wneud addasiadau i dai unigolion anabl fel bod modd iddynt barhau i fyw adref yn annibynnol.

Tynnwyd sylw at y Cynllun Cartrefi Gwag sydd yn mynd i'r afael â dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd drwy gefnogi perchnogion i ddod a thai i safon byw derbynol tra hefyd yn cadw trigolion yn eu cymunedau. Nodwyd bod 128 o grantiau wedi eu rhoi i brynwyr sydd gyda chysylltiad lleol i'r tai gan bwysleisio mai'r cyfanswm o dai sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yw 321. Pwysleisiwyd bod nifer fawr o bobl sydd yn manteisio o'r cynllun hwn yn brynwyr tro cyntaf lleol ac mae'r Cynllun yn caniatáu iddynt aros yn eu cymunedau.

Eglurwyd bod asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cael ei gyflawni ar y Cynllun Gweithredu Tai. Ymfalchiwyd bod y Cynllun yn cael effaith bositif ar bob nodwedd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg gan ei fod yn cynyddu nifer ac ystod o dai o fewn y Sir ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau. Ymhelaethwyd bod y Cynllun yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg gan ei fod yn cynorthwyo canran uchel o drigolion Gwynedd, sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai, gael mynediad at gartrefi fforddiadwy, bencythiadau, grantiau neu ryddhad trethi. Adroddwyd bod data a gasglwyd gan asiantaethau tai yn cadarnhau bod cyfartaledd o 95% o breswylwyr stadau cymdeithasol newydd yn gallu'r Gymraeg. Ymhelaethwyd bod y stadau hyn yn cynnwys 26% yn fwy o siaradwyr Cymraeg na'r ward etholiadol ble y'i lleolwyd ynddi, a 31% yn uwch na chanran siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir.

Cyfeiriwyd at gynlluniau sydd yn mynd i'r afael â cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol ac hefyd i gynorthwyo unigolion i ymdrin gydag argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd.

Edrychwyd ymlaen at flwyddyn ariannol 2026/27 gan nodi bod yr Adran yn dymuno diweddarau asesiad effaith iaith Gymraeg y Polisi Gosod Tai Cyffredin, yn sgil deddfwriaeth newydd a ddaw i rym yn y maes Digartrefedd, yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r ddeddfwriaeth honno. Eglurwyd hefyd bod yr adran yn bwriadu parhau i gymryd pob cyfle i gynorthwyo pobl leol Gwynedd i gael mynediad at dai fforddiadwy a pharhau i dderbyn data am allu ieithyddol tenantiaid newydd ar stadau tai cymdeithasol.

Mynegwyd balchder bod porth ar-lein newydd yn cael ei gwblhau gan gwmni allanol er mwyn rhoi mynediad i unigolion at ffurflenni cais am eiddo cymdeithasol neu diweddariadau ar gais byw, ar-lein am y tro cyntaf erioed. Pwysleisiwyd bydd y porth hwn yn gyfleus i unrhyw un sydd yn dymuno llenwi ffurflen ar-lein neu angen gwybodaeth y tu hwn i oriau gwaith arferol. Pwysleisiwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda'r cwmni er mwyn sicrhau bod y porth hwn ar gael yn gwbl dwyieithog. Sicrhawyd, nodwyd bod prosesau papur a ffôn yn parhau ar gael i unrhyw un nad ydynt â mynediad neu'n anghyfforddus i gwblhau'r ffurflenni ar lein

Diweddarwyd bod yr Adran wedi caffael system newydd ym mis Tachwedd 2025 er mwyn echdynnu data dewis iaith unigolion er diben cysylltu. Eglurwyd nad oedd modd derbyn y data hyn ar y system flaenorol. Manylwyd bod 855 o ymgeiswyr Opsiynau Tai wedi gofyn i'r Adran ohebu yn Gymraeg, ac 805 wedi gofyn am ohebiaeth Saesneg. Yn debyg, nodwyd bod 95 o unigolion sydd wedi cysylltu gyda'r uned Digartrefedd wedi gofyn am ohebiaeth drwy'r Gymraeg, 254 yn y Saesneg a 2 mewn iaith arall. Pwysleisiwyd bod unrhyw ohebiaeth gychwynnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf er mwyn ceisio annog a hybu defnydd yr iaith pan yn bosib. Sicrhawyd bod hyn hefyd yn wir am wybodaeth sydd yn cael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol a holl ffurfiau gohebu eraill mae'r Adran yn ei ddefnyddio.

Adroddwyd bod 95.8% o staff yr Adran wedi derbyn hunanasesiad iaith neu asesiad gan eu rheolwr llinell, hyd at Rhagfyr 2025. Cadarnhawyd bod 95.6% o'r rhain yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi.

Soniwyd bod yr Adran wedi derbyn cydnabyddiaeth a chanmoliaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith mewn perthynas â Polisi Gosod Tai. Eglurwyd bod y Comisiynydd yn falch o weld bod y Polisi yn rhoi pwyslais cryf ar gysylltiad lleol ar lefel Gwynedd ac ar lefel gymunedol gan ei fod yn fodd o gynorthwyo i grynau'r Gymraeg, gyda thystiolaeth i gefnogi hynny. Mynegwyd balchder yr ystyrir Polisi Gosod Tai yr Adran fel arfer dda i awdurdodau eraill bod yn ei efelychu, gan gadarnhau bod y Comisiynydd yn paratoi blog a fydd yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefan yn fuan er mwyn manylu ar y mater.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am ganllawiau sydd i'w dilyn ar gyfer llenwi tai cymdeithasol gweigion ar ôl i'w perchnogion ymadael, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo bod hyn yn gyfrifoldeb i'r cymdeithasau tai ac nid yw'n disgyn o dan swyddogaeth yr Adran.

Llongyfarchwyd yr Adran ar y gwaith maent yn ei wneud i sicrhau bod trigolion lleol yn cael cartrefi lleol. Fodd bynnag, nodwyd bod oddeutu traean o drigolion cymunedau Gwynedd ddim yn medru'r Gymraeg ac felly nid yw unigolyn lleol o reidrwydd yn unigolyn gyda sgiliau ieithyddol Cymraeg. Gofynnwyd pam nad yw'r Adran yn gofyn i unigolion os ydynt yn gallu siarad Cymraeg fel rhan o weithrediad y Cynllun Gweithredu Tai. Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth yr Adran bod rhaid i'r Adran lynu at reolau statudol gosod tai. Ymhelaethwyd bod rhaid i'r cwestiynau sydd yn cael eu gofyn gan yr Adran fod yn neilltuol ar gyfer yr angen am dai, gan bwysleisio nad yw iaith yn cael effaith ar eich anghenion tai ac felly ni ellir ei ofyn i ymgeiswyr. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod modd i'r cymdeithasau tai allu gofyn am sgiliau ieithyddol unigolion gan bod y tai eisoes wedi cael eu gosod erbyn hynny ac ni fyddai unrhyw ateb a ddarperir gan yr unigolion yn cael effaith ar denantiaid.

Gwnaed cais bod y cymdeithasau tai yn rhoi mwy o fanylion yn eu data i gadarnhau faint o oedolion sydd yn medru'r Gymraeg yn eu tai yn ogystal â faint o blant sydd yn medru'r Gymraeg er mwyn cael darlun cyflawn.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad o'r cyngor cyfreithiol yr oedd yr Adran yn ei dderbyn fel arweiniad i gynnwys amod ieithyddol fel rhan o'r broses gosod tai cymdeithasol, nododd Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo bod yr Aelod Cabinet eisoes wedi darparu diweddariad mewn cyfarfod o'r Cabinet. Nodwyd caiff y ddolen i wyllo'r drafodaeth honno gael ei rhannu gyda'r Aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae'r Adran yn mynd ati i addasu'r asesiad effaith cydraddoldeb a'r Gymraeg, adroddodd Pennaeth yr Adran bydd asesiad cyhoeddus yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â phartneriaid yr Adran yn dilyn cyngor gan Comisiynydd y Gymraeg i wneud hynny. Pwysleisiwyd bydd yr asesiad hwn yn asesiad llawn o'r Polisi Gosod Tai ac fe fydd yn cael ei gyflawni tra bydd addasiad i'r polisi yn cael ei wneud. Cadarnhawyd bydd cyfle i Aelodau gyfrannu barn a sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad ar y polisi hwnnw. Mewn ymateb i ymholiad pellach, credwyd bod y Polisi Gosod Tai yn gwarchod yr iaith Gymraeg a bod angen sicrhau bod unrhyw newidiadau iddo yn cydymffurfio gyda phob deddfwriaeth tra hefyd yn bendant a phositif wrth warchod y Gymraeg.

Manylwyd ar y cynlluniau sydd ar waith er mwyn dod a thai gweigion yn ôl i ddefnydd gan ofyn i'r Adran os oeddent o'r farn bod cymeradwyo 128 yn gyfwerth a'r angen, yn fwy na'r hyn a ddisgwylir, neu a oeddent yn disgwyl i'r galw am y cynllun hwn fod yn uwch. Gofynnwyd hefyd os ydynt wedi cael unrhyw adborth gan yr unigolion sydd wedi elwa o'r

cynllun. Cyfeiriwyd at newidiadau i'r cynllun sydd yn galluogi pob math o brynwyr tai i elwa ohono, gan ofyn a oes cyfran uchel o'r grantiau wedi cael eu cymeradwyo i landlordiaid. Mewn ymateb i'r ystyriaethau, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran nad oes unrhyw gwnion wedi dod i law ar gyfer y cynllun hwn, gan annog unrhyw un sydd yn dymuno darparu adborth i wneud hynny. Nodwyd bod bid ariannol wedi cael ei gyflwyno gan yr Adran er mwyn ariannu swyddi swyddogion tai gwag ychwanegol oherwydd y gwelir cynnydd yn niferoedd y ceisiadau. Yn debyg, eglurwyd bod 3 swyddog ychwanegol wedi cael eu penodi i gynorthwyo gyda materion gorfodaeth sydd yn ymwneud â tai gweigion sydd yn peri trafferthion o fewn cymunedau, gan egluro bydd un o'r swyddogion tai gwag yn cydweithio gyda'r swyddogion gorfodaeth er mwyn pontio'r ddarpariaeth. Adroddwyd mai dim ond pobl sydd yn mynd i fyw yn y tai ar ôl iddynt ddod yn ôl i ddefnydd sydd yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn gan gadarnhau nad yw landlordiaid yn gymwys o'r herwydd. Soniwyd hefyd bod yr Adran wedi gofyn bod cyfran o'r cynnydd a welir mewn treth cyngor yn cael ei neilltuo i gynllun newydd a fyddai'n dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd er mwyn helpu gyda sefyllfa digartrefedd o fewn y sir.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod pob gohebiaeth yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor. Adroddwyd bod yr ohebiaeth cyntaf yn cael ei wneud yn ddwyieithog, gyda pob ohebiaeth pellach yn cael ei wneud yn iaith dewisol yr unigolyn, oni bai am unrhyw ohebiaeth statudol. Cadarnhawyd nad yw'r Adran yn ail-ofyn i'r unigolion am eu dewis o iaith ohebu ar ôl y cynnig cyntaf, yn unol â gweithrediad y Polisi Iaith.

Tynnwyd sylw bod nifer helaeth o unigolion digartref yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Saesneg, gan ofyn a yw'r unigolion hynny yn deillio o ardaloedd y tu hwnt i'r sir. Mewn ymateb, adroddodd y Pennaeth Adran nad oes cysylltiad rhwng y ffigyrau gohebu ac o le mae'r unigolion digartref yn deillio. Nodwyd bod y mwyafrif o bobl ddigartref sydd yn y sir yn deillio o Wynedd, gyda chanran fechan wedi dod i'r sir i ffoi o drais domestig, ac mae dyletswydd statudol ar yr Adran i ofalu amdanynt.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

7. ADRODDIAD YR ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn absenoldeb Pennaeth yr Adran. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod yr Adran yn cyfrannu at waith datblygu polisiau, strategaethau a phrosiectau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym meysydd gwaith, gwasanaethau, cymunedau a datblygiad gweithlu fel rhan o Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-2033.

Nodwyd bod yr adran wedi intergreidio'r Gymraeg i bolisiau allweddol ac yn parhau i wneud hynny. Cadarnhawyd bod pwyslais yn cael ei roi i sicrhau bod gwasanaethau i'r cyhoedd a staff ar gael yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu mewn systemau ffôn, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, hyfforddiant a chyfathrebu mewnol. Ymhelaethwyd bod ymchwil yn darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau, ac bod prosiectau penodol yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc, busnesau a chymunedau.

Ymfalchiwyd bod datblygu sgiliau iaith y gweithlu yn flaenoriaeth i'r Adran, gan nodi bod cynlluniau hyfforddi, cefnogaeth i brentisiaid a phrosiectau dysgu Cymraeg i'r gweithlu, gyda chefnogaeth bellach yn cael ei ddarparu i'r unigolion sy'n gweithio o fewn y maes gofal. Cadarnhawyd bod mentrau ar waith sy'n canolbwyntio ar gynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Tynnwyd sylw bod yr adroddiad yn tystiolaethu lefel sgiliau iaith uchel yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol.

Cydnabuwyd bod heriau a rhwystrau yn wynebu'r Adran wrth ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriwyd at rai heriau penodol megis diffyg darpariaeth Gymraeg gan rai partneriaid allweddol gan fel yr heddlu a WLGA, systemau caffael a thendrau cenedlaethol sydd ddim yn cefnogi'r Gymraeg yn ddigonol a thechnoleg cyfryngau cymdeithasol. Tynnwyd sylw penodol at rwystr o fewn y maes cofrestru genedigaethau a marwolaethau, gan nodi bod cyfyngiadau deddfwriaethol yn cyfyngu ar y gallu o gwblhau cofrestrad yn uniaith Gymraeg.

Nodwyd bod gan yr Adran fwriad o fewn y flwyddyn nesaf, i ddatblygu canllaw asesu effaith ar y Gymraeg i staff ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau mawr. Nodwyd hefyd bod cynlluniau eraill yn cynnwys hyrwyddo hyfforddiant Technoleg Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth staff o'r offer sydd ar gael i'w cynorthwyo. Pwysleisiwyd bod y gwaith ym maes hyfforddiant iaith yn parhau a bod yr Adran hefyd yn parhau i gydweithio gyda Swyddfa Gofrestru Gyffredinol er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw bod systemau Galw Gwynedd yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth os ydynt eisieu parhau i ddefnyddio gwasanaeth Gymraeg ar sawl achlysur, er bod y defnyddiwr eisoes wedi nodi ei iaith ddewisol. Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu nad oedd y Swyddogion yn ymwybodol bod y cwestiwn hwn yn cael ei holi, gan gadarnhau byddent yn cynnal trafodaethau gyda'r gwasanaeth er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd asesiadau symudedd cwsmeriaid ar gyfer derbyn Bathodynau Glas yn cael eu cwblhau yn y Gymraeg hyd nes bod y cwsmer yn gofyn am asesiad Saesneg, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn gyntaf hed nes mae'r cwsmeriaid yn nodi mai eu iaith dewisol yw'r Saesneg.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach yn parhau gyda'r cyfrifiad, gan gadarnhau bod cyfrifiad arall ar y gweill. Nodwyd bod y cyfrifiad hwnnw mewn cyfnod o ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi mewnbynnu i'r ymgynghoriad hwnnw gan ofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sicrhau bod mwy o gwestiynau sydd yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu gofyn.

Cyfeiriwyd at y 'peilot arolwg defnydd iaith' a ddangoswyd bod 71.8% o'r sampl arsylwyd yn dewis gwasanaethau cyfrwng Cymraeg pan yn defnyddio rhai o wasanaethau rheng flaen y Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn os oes cynlluniau i ar y gweill i ehangu'r peilot hwn, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu y gobeithir y bydd hyn yn digwydd. Ategwyd hefyd bod ymyraethau newydd ar waith yn sgil yr arolwg megis datblygu posteri syml a llafar eu naws, er mwyn annog pobl i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio symleiddio'r iaith sydd yn cael ei ddefnyddio megis mewn ffurflenni ar wefan y Cyngor er mwyn hybu defnydd y Gymraeg. Tynnwyd sylw bod niferoedd o bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg mewn canolfannau hamdden a llyfrgelloedd yn uwch na defnyddwyr y ganolfan alwadau Galw Gwynedd ac felly bydd ymchwil pellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod sylw yn cael ei roi i agweddau digidol o'r gwaith hwn gan bod mwy o wasanaethau'r Cyngor yn troi yn ddigidol gydag amser. Mynegwyd balchder bod yr arolwg hwn yn tystiolaethu bod staff y Cyngor yn rhagweithiol gyda'r Gymraeg. Ymhelaethodd Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod y prosiect Cyfathrebu Clir hirdymor yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn gan ei fod yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor er mwyn edrych i weld os oes modd eu haddasu i fod yn cyfathrebu yn effeithiol a chlr heb israddio'r iaith na'r gwasanaethau.

Mynegwyd pryder bod heriau yn parhau gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Gwasanaethu Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg i lythyru gyda'r Swyddfa ar ran y Pwyllgor, i ddatgan yr anfodlonrwydd hwn a gofyn iddynt roi camau mewn lle i newid hyn i'r dyfodol drwy ychwanegu ddarpariaeth Gymraeg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Gofyn i Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg i lythyru gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ar ran y Pwyllgor, i ddatgan anfodlonrwydd nad oes modd cofrestru yn Gymraeg a gofyn iddynt roi camau mewn lle er mwyn newid hyn.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:55yb.

CADEIRYDD

Eitem 5

Adroddiad adran Economi a Chymuned ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023- 2033

Dyddiad	20 Ebrill 2026
Adran	Economi a Chymuned
Awdur	Sioned E Williams

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Mae holl bolisiau a chynlluniau strategol yr Adran yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith. Yn benodol:

- [Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd](#). - Mae'r Gymraeg wedi ei wreiddio o fewn y Strategaeth, gweledigaeth y Strategaeth yw "Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."
- [Fframwaith Adfywio Ardal Ni](#) - yn ymgorffori 13 cynllun adfywio ardaloedd lleol gan amlygu prif faterion a blaenoriaethau wedi eu hadnabod yn lleol
- [Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy](#). Mae'r Gymraeg yn ran greiddiol o'r weledigaeth ar gyfer economi ymweld cynaliadwy ac yn un o'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt ar gyfer gweithredu.
- Drafft Cynllun Diwylliant Gwynedd. Mae gweledigaeth ac egwyddorion drafft diwylliant ar gyfer Gwynedd yn rhoi sylw i ddathlu ein hunaniaith, treftadaeth a'r Gymraeg.
- [Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Cymru](#). Rhoddir pwyslais o fewn y Cynllun Rheoli i bwysigrwydd yr iaith a diwylliant o fewn ein cymunedau llechi a'r angen i warchod, hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws ein gweithgareddau.

Prosiectau yng Nghynllun y Cyngor

Gwynedd Llewyrchus:

- **Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy**
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi**
- **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**

Gwynedd Ofalgar:

- **Cefnogi Llesiant Pobl**

Prosiectau a chynlluniau gan Wasanaethau'r Adran:

Mae prosiectau a chynlluniau'r Adran yn cael eu monitro yn gyson gyda trefniadau mewn lle i gynnal asesiad effaith cydraddoldeb, gan gynnwys effaith iaith Gymraeg, wrth gyflwyno polisi neu gynllun newydd. Mae'r materion mae gwasanaethau wedi ei amlygu ar gyfer 2025/26 yn faterion sydd wedi cael ei adrodd arnynt i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol, ond mae

rheolwyr yn gyson herio i sicrhau eu bod yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith. Mae rhai prosiectau a chynlluniau gan wahanol wasanaethau wedi eu nodi isod:

Gwasanaeth Morwrol: Mae ein holl wasanaethau ar-lein ar gael yn ddwyieithog e.e. ceisiadau cofrestru badau pŵer, ceisiadau am angorfa a thocynnau parcio tymhorol, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd a ddarperir i gwsmeriaid neu ddefnyddwyr yr arfordir e.e. pamffledi diogelwch, cod ymddygiad ayyb.

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli: Mae ein holl wasanaethau ar-lein ar gael yn ddwyieithog ac unrhyw ddeunydd a ddarperir i gwsmeriaid neu defnyddwyr yr harbwr. Mae llawer o ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn defnyddio'r Saesneg, ond mae ymdrech i ddechrau pob sgwrs yn y Gymraeg. Mae'r holl wasanaethau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gynnwys ein gwefan: [Hafan | Hafan Pwllheli Marina](#)

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn trefnu eu harddangosfeydd i gyd yn ddwyieithog ac yn darparu arlwy o weithgareddau yn y Gymraeg (a rhai dwyieithog hefyd). Rydym yn parhau i gydweithio gyda Menter Iaith Bangor i gynnal sesiynau i annog sgysiau rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd. Yn ogystal mae'r Swyddog Ymgysylltu a Dysgu (grant SPF/Cyfuno) yn cydweithio gyda Menter Iaith drwy'r sir i ddarparu cysylltiadau a gweithgareddau drwy gefnogi'r Gymraeg ee Tywyn.

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd yn parhau i ddarparu sesiynau'n ddwyieithog ar draws Gwynedd i annog creadigrwydd a llesiant cymunedau Gwynedd trwy'r celfyddydau. Trwy grantiau amrywiol fel rhai Grantiau Celfyddydau Cymunedol a Cefnogi Celfyddydau 2025/6 bu cefnogaeth i sefydliadau a chwmnïau diwylliannol Gwynedd gan gyrraedd pob rhan o'r sir a chynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Gobeithir parhau gyda hyn yn 2026/7. Mae'n ofynnol i rai sydd yn derbyn grant celfyddydau i dderbyn polisi iaith y Cyngor neu gydag un eu hunain ac yn nodi faint o gyfleoedd sydd yn y Gymraeg. Hefyd yn y broses o ddatblygu gweledigaeth Diwylliant i Wunedd a chynhadledd a gweithdai wedi eu cynnal a'r iaith Gymraeg yn rhan ohono.

Gwasanaeth Archifau Gwynedd: Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn darparu deunydd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall eu cymunedau, pwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaeth lleol. Gwneir hyn drwy fodd Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda 75 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig yn ymrwymo i'r cytundeb. Hefyd drwy ddefnyddio casgliadau'r Gwasanaeth mae'r Gwasanaeth Archifau yn cynnig gweithgareddau yn ein cymunedau ac yn ein archifdai sydd yn hybu'r Gymraeg. Yn ogystal mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio gyda sefydliadau eraill, megis Llyfrgell Genedlaethol, Drysau Agored, Cymdeithasau Hanes ayyb i gynnal gweithgareddau.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor: Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rhan allweddol trwy gefnogi pobl i ddysgu a siarad Cymraeg, cael mynediad at adnoddau darllen a gwybodaeth yn Gymraeg, dysgu am ein diwylliant a'n treftadaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg a Chymreig. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fod adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi pob math o anghenion darllen a gwybodaeth, ac i gefnogi anghenion defnyddwyr sydd angen mynediad at lyfrau a deunyddiau eraill yn Gymraeg mewn gwahanol ffurf. Drwy ddarparu mynediad at lyfrau ac adnoddau Cymraeg, yn ogystal â gweithgareddau yn Gymraeg, rydym yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu a siarad Cymraeg ac sy'n gweld budd mewn dysgu a siarad Cymraeg er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd gwaith, a chryfhau ymdeimlad o hunaniaeth cenedlaethol.

Cynigir rhaglen amrywiol o arlwy Cymraeg boed yn ffilm neu berfformiad byw hefyd yn Neuadd Dwyfor. Mae'r neuadd yn cael ei hyrwyddo fel Canolfan Ddiwylliannol Cymraeg ym Mhen Llyn a thu hwnt.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i annog timau staff i siarad Cymraeg gyda'i gilydd ac i asesu unrhyw anghenion neu gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyfathrebu'n naturiol gyda'i gilydd yn y Gymraeg.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Mae'r wybodaeth sydd gennym ar lein yn ddwyieithog ac mae pob deunydd marchnata / hyrwyddo yn ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am y rôl adfywio o fewn canol ein trefi sydd yn golygu nifer o gomisiynau. Mae pecynnau comisiynu ar gyfer unrhyw waith yn ddwyieithog a bydd unrhyw gynllun a ddatblygir boed yn waith megis astudiaeth neu yn waith cyfalaf megis arwyddion i gyd yn ddwyieithog. Yn ogystal bydd unrhyw gynllun celfyddydol eu natur a gaiff eu gweithredu yn cymryd ystyriaeth ac yn manteisio ar ddathlu treftadaeth a iaith. Mae esiamplau yn cynnwys cynlluniau celf yng nghanol trefi ynghyd ag mewnosodiadau llechi ar balmentydd trefi sydd yn rhan o stori Llechi Cymru.

Yn fwy diweddar mae cefnogaeth i drefi sydd a diddordeb mewn cyflwyno datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fod yn Dref Diwylliant 2029.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith a gweithredu prosiectau sydd yn gysylltiedig a Thirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'n faes gwaith penodol lle mae'r Gymraeg yn thema llorweddol o fewn y Cynllun Rheoli ac yn derbyn sylw ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth. Mae trafodaethau wedi cymryd lle i adnabod cyfleon i fonitro unrhyw effeithiau allai ddeillio o brosiectau sy'n datblygu o'r dynodiad ar y Gymraeg trwy gydweithio efo Prifysgol Bangor ac mae trafodaethau'n parhau ar ymchwil dilynol.

Mae prosiect LleCHI LleNi: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol yn benodol yn hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar draws y bröydd llechi. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'n hegwyddorion sylfaenol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned:

- Defnyddio Cymraeg Clir mewn gohebiaeth a hysbysebion am weithgareddau
- Cychwyn pob sgwrs : boed yn gyfarfod, digwyddiad neu weithgaredd, yn Gymraeg
- Sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg
- Creu gofod cefnogol a chyfleoedd i ddygwyr ymarfer eu Cymraeg
- Arwain ar ddigwyddiadau llesiant a theithiau cerdded hanesyddol yn naturiol ddwyieithog, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y Gymraeg, a chyfleoedd i bobl heb Gymraeg o gwbl, ei chlywed ac i ymgyfarwyddo â hi.

Prosiectau penodol ar waith ar hyn o bryd:

- Tafod Tirwedd – cynllun sydd yn datblygu adnoddau a gweithgareddau i ddysgwyr.
- Cwrs Cynefin a Chymuned – cwrs i ddatblygu llysgenhadon o fewn y cymunedau i hyrwyddo'r diwydiant (a'r iaith yn greiddiol) i ymwelwyr.
- Darganfod Geiriau - cynllun ar y cyd a Menter Iaith Gwynedd i gasglu geiriad ac enwau allweddol i'r dyffrynnoedd llechi a'u rhannu gyda siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr newydd

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau Mae'r Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth yn ddwyieithog. Mae'r porth grantiau cymunedol yn gweinyddu yn ddwyieithog ac mae gofyn i bob buddiolwr grant trydydd parti ddarparu polisi dwyieithog i fodloni'r meini prawf. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd er mwyn sefydlu trefn gyfeirio ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n derbyn cefnogaeth i ddatblygu prosiectau sydd ddim ar gallu i fod yn darparu yn ddwyieithog. Bydd hyn yn sicrhau bod cefnogaeth arbenigol i'r grwpiau yma i sicrhau dwyieithrwydd yn eu trefniadau a darpariaeth.

Gwasanaeth Datblygu'r Economi: Mae gwaith y Gwasanaeth yn cynnwys cyfrifoldeb am ddatblygu a gwireddu Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd a'r prosiect *'Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith'* o fewn Cynllun y Cyngor.

Mae gwaith i ddatblygu strategaeth economaidd newydd i Wynedd wedi ei gwblhau yn ystod 2025/26. Derbyniodd y Strategaeth sêl bendith [Cabinet Cyngor Gwynedd ar 10 Mawrth](#) ac bydd argymhelliad i'w fabwysiadu yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 14 Mai.

Mae sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith o fewn ein cymunedau yn greiddiol i fwriad y Strategaeth Economaidd. Cynhaliwyd asesiad yn gynnar ym mhroses datblygu'r Strategaeth er mwyn gwreiddio ystyriaethau ieithyddol i'w ddatblygiad; o ganlyniad mae cryfhau'r Gymraeg wedi ei gynnwys yng ngweledigaeth y Strategaeth:

"Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."

Mae'r Gymraeg hefyd wedi ei nodi o fewn chweched blaenoriaeth y strategaeth ac mae cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd wedi ei adnabod yn faes gweithgaredd.

Mae defnydd y Gymraeg gan fentrau hefyd wedi ei weu o fewn fframwaith monitro a gwerthuso'r Strategaeth. Mae rhan helaeth o weithgaredd y Gwasanaeth yna'n dod o dan adain ein prosiect o fewn blaenoriaeth 'Gwynedd Llewyrchus' Cynllun y Cyngor.

Mae'r **Rhaglen ARFOR** wedi bod yn gweithredu ers 2019, er mwyn cryfhau economi rhanbarth gorllewin Cymru. Y nod ydi cynnal a chreu gwaith fyddai'n galluogi pobl ifanc i aros a dychwelyd i'r rhanbarth i weithio gan warchod a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhanbarth yn cynnwys Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gar. Gwasanaeth Datblygu'r Economi Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar y gwaith ar ran y 4 sir.

Mae £500,000 pellach wedi ei sicrhau gan Llywodraeth Cymru i barhau'r Rhaglen ARFOR hyd at fis Medi 2026. Mae'r cyfnod pontio yn canolbwyntio ar argymhellion gwerthusiadau annibynnol ARFOR 1 a 2; trosglwyddo dysgu o'r rhaglen a gweithredu nifer bychain o ymyraethau allweddol o fewn y themâu ieuencid a mudo.

Yn ystod 2025/26 mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau £1.3 miliwn i gynnig cymorth ariannol i helpu mentrau lleol ddatblygu. Er mwyn derbyn arian mae'n ofynnol bod busnes yn

ymrwymo i ddefnyddio mwy o Gymraeg gan gynnig tri ffordd y byddent yn gwneud hynny; hyd at Chwefror 2026 mae 97 o fentrau wedi cadarnhau eu hymrwymiad. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi helpu 175 o drigolion lleol i ddychwelyd i waith a 103 eraill i gynyddu eu gallu i ennill mwy o gyflog; sydd o gymorth i gynnal ein cymunedau lleol a lleihau allfudo.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth yn ddwyieithog.

Gweinyddir ein cronfa grant digwyddiadau yn ddwyieithog.

Cynhaliwyd sesiynau ymweliadau cyfarwyddo ar Ysgwrn a lleoliadau oddi fewn i'r dynodiad Llechi i Llysgenhadon Gwynedd ac Eryri yn ddwyieithog.

Yn y sesiynau hyfforddiant i fusnes a threfnwyr digwyddiadau amlygwyd y gefnogaeth sydd ar gael gan yr Adran a Llywodraeth Cymru o ran defnydd or iaith ym myd busnes a chyfathrebu.

Fel rhan o brosiect Diwylliesiant (cronfa Ffyniant Cyffredin)sichhawyd cyllideb ychwanegol i hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardal . Nodir isod yr erthyglau sy'n rhoi sylw i'r iaith a diwylliant ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol

- *Ewch ati i frolio'r iaith!* Erthygl wedi'i hysgrifennu gan yr awdur a'r bardd Rhys Iorwerth: [Ewch ati i frolio'r iaith! | Eryri](#)
- *Sŵn Eryri yn 2026* – Erthygl sy'n hyrwyddo cyngherddau a digwyddiadau cerddorol Cymreig ledled Eryri a Phen Llŷn: [Sŵn Eryri 2026 | Eryri](#)
- *Creu, Cyfranogi a Chysylltu yn Eryri a Phen Llŷn* – Erthygl sy'n hyrwyddo profiadau celfyddydol a diwylliannol, yn ogystal a hyrwyddo'r sefydliadau sy'n cynnig y profiadau hyn [Creu, Cyfranogi a Chysylltu yn Eryri a Phen Llŷn | Eryri](#)

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Gwasanaeth Morwrol: Er mwyn codi statws y Gymraeg, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau bwriadol i:

- Annog a chefnogi staff i siarad a gohebu yn y Gymraeg.
- Darparu cyfleon hyfforddi i staff i wella a dysgu'r iaith.
- Dathlu llwyddiant swyddogion sy'n dysgu Cymraeg.
- Gwella cynnwys dwyieithog yn ein harbyrau ac ar draethau'r sir.

Mae'r Gwasanaeth wedi cael trafodaethau cynhyrchiol iawn gyda Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg y Cyngor dros y misoedd diwethaf ynglŷn â datblygu adnoddau dysgu'r Gymraeg ar gyfer swyddogion tymhorol y gwasanaeth. Hefyd, rydym wedi cytuno y bydd y Swyddog yn rhan o raglen anwytho swyddogion tymhorol yn 2026.

Mae rhai swyddogion parhaol y Gwasanaeth wedi cwblhau cwrs 'magu hyder' yn y Gymraeg, ac mae rhai ar hyn o bryd yn ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg sylfaenol' ar-lein.

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli: Mae 22% o aelodau'r tîm yn ddysgwyr Cymraeg. Mae cyfleoedd hyfforddi ar gael. Eleni mae cryn anogaeth wedi bod i aelodau'r tîm sydd â llai o hyder i ddatblygu eu sgiliau a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i:

- gefnogi dysgwyr neu rhai sydd yn llai hyderus wrth siarad a defnyddio'r Gymraeg
- ddarparu cyfleon hyfforddi i staff i wella a dysgu'r iaith
- Parhau i ddarparu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau yn y Gymraeg sydd yn ddibynnol ar grantiau ac angen adnabod ffordd tymor hir i gynnal hyn
- Mae canlyniad ein comisiwn Datblygu Cynulleidfa a Marchnata Storiell drwy cynllun CELF (Y Rhwydwaith Oriell Gelf Cyfoes Genedlaethol) a comisiwn Datblygu Cynulleidfa a Marchnata Amgueddfa Lloyd George (SPF) yn darparu adborth sydd am fod o ddefnydd i ni yn y maes yma i'r dyfodol

Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor: Byddwn yn parhau i:

- Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw drwy barhau i gynnal sesiynau Paned a Sgwrs yn ein Llyfrgelloedd.
- Sicrhau fod gweithgareddau i blant a theuluoedd unai yn cael eu cynnal yn uniaith Gymraeg neu yn ddwyieithog gyda'r pwyslais ar y Gymraeg fel y brif iaith.
- Sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i weithgareddau oedolion lle croesawir ac anogir Dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan.
- Parhau i ddarparu a chynnal casgliadau dynodedig o adnoddau Dysgu Cymraeg ym mhob llyfrgell
- Hyrwyddo argaeledd deunyddiau ac adnoddau Cymraeg drwy ein platfformau digidol
- Cynnal ein casgliad hanes lleol a chasgliad cylchgronau yn ein prif Storffeydd a sicrhau fod gwybodaeth am y casgliadau ar gael i ddefnyddwyr.
- Cydweithio gyda phartneriaid megis Menter Iaith, Cymraeg i blant a Mudiad Meithrin ar gynlluniau a gweithgareddau penodol yn y Llyfrgelloedd i ddenu teuluoedd
- Parhau i gymryd rôl arweiniol wrth weinyddu'r cynllun Llyfrau Print Bras Cymraeg ar ran Llyfrgelloedd Cymru, trwy gydlyn cynllun argraffu llyfrau print bras Cymraeg gyda'r bwriad o sicrhau dod adnoddau print bras ar gael yn Gymraeg i'r defnyddwyr hynny sy'n cael trafferth darllen print maint arferol.
- Parhau i gydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i sicrhau fod llyfrau llafar Cymraeg ar gael i'w benthyg trwy Lyfrgelloedd Cymru ac yn ddigidol trwy'r platfform digidol cenedlaethol.
- Parhau i gynnal adnoddau llyfrau o werth hanesyddol trwy ein casgliad Llyfrau Plant 19g a'r 20g a gadwir yn y brif Storfa Llyfrgell yng Nghaernarfon
- Cynnal Darlith Flynyddol Llyfrgell Penygroes mewn cydweithrediad a Chymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle.
- Cynnal Darlith Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen
- Cydweithio gyda Casgliad y Werin i adnabod cynnwys i'r wefan, gan hyfforddi staff y gwasanaeth i allu gwneud hyn ac ychwanegu lluniau a chynnwys digidol sy'n cyd-fynd a'r amcanion strategol.
- Gweithredu ar waddol Diwylliesiant drwy ganolbwyntio ar hyrwyddo llenyddiaeth iaith Gymraeg gan ddenu darllenwyr newydd o bob oedran.

- Parhau i ddatblygu rhaglen ehangach yn Neuadd Dwyfor gyda'r pwyslais ar ddatblygu nosweithiau Cymraeg byw gyda bandiau ac artistiaid, megis Al Lewis, Welsh of the West End, Cabarela a Noson Gomedï Cymraeg.

Gwasanaeth Archifau Gwynedd: Byddem yn parhau i:

- Gynnig Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd i ysgolion y sir gan ddarparu deunydd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg fel bod modd iddynt ddeall eu cymunedau, pwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaeth lleol.
- Gynnig sesiynau a gweithgareddau yn ein archifdai.
- Gydweithio gyda sefydliadau a chymdeithasau i gynnig gweithgareddau.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Yn gysylltiedig a'r gwaith Llechi Cymru bydd adnoddau addysg dwyieithog yn cael eu datblygu ar gyfer CA2 a 3. Mae adnoddau newydd i ddysgu am dreftadaeth a'r diwedd llechi eisoes wedi uwch lwytho ar wefan Llechi Cymru, sianel You Tube a Chasgliad y Werin. Yn ogystal bydd digwyddiad Iaith a Hanes yn cael ei gynnal yn yr hydref, i gynulleidfa o newydd-ddyfodiaid i gael blas o'r iaith a'i hynganiad, ynghyd â sesiwn ar hanes a diwylliant yr ardal.

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau: Bydd cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd i godi ymwybyddiaeth o bolisi iaith newydd maent yn ddatblygu ar gyfer Cyngorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol.

Gwasanaeth Datblygu'r Economi: Mae'n gyfnod pellach o newid yn nhirwedd ariannu'r maes datblygu'r economi. Mae swm bach o arian pontio tymor byr wedi ei sicrhau ar gyfer y rhaglen ARFOR ond dim gwariant o barhad i'r rhaglen.

Bydd newid ehangach yn ariannu'r maes wrth i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) ddod i ben a'r Gronfa Twf Lleol dod yn weithredol. Bydd angen ystyried cyfleoedd pellach i godi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynllunio ar gyfer yr arian newydd.

Yn y maes cefnogi pobl bydd mwy o gynlluniau cymorth ar gael yn 2026/27 o ganlyniad i arian newydd gan Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG. Bydd sicrhau fod gwerthfawrogiad o'r Gymraeg fel sgil byd gwaith a sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei gynllunio o fewn pob darpariaeth.

O fod wedi mabwysiadau Strategaeth Datblygu Economaidd newydd bydd cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu fydd yn cynnwys gweithgaredd i gryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Cyfnod ariannu Ffyniant Gyffredin yn dod i ben gan newid pwyslais. Bydd rhaid ymdrechu i ganfod arian o gronfeydd pellach i codi ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig yr ardal trwy ein cyfrifon twristiaeth digidol ar lein.

Amlygu'r cyfleoedd fydd yn codi i gynnal digwyddiadau diwylliannol yn sirol gyda chefnogaeth Cronfa cefnogi digwyddiadau 2026/27 y Cyngor.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Gwasanaeth Morwrol: Mae gwasanaethau cyfieithu Microsoft wedi hwyluso cyfieithu ac yn annog staff i ohebu yn y Gymraeg. Mae rhaglenni fel Cysill ar-lein neu ap 'Geiriaduron' hefyd yn ddefnyddiol iawn. Mae rhai swyddogion yn y gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd 'Deallusrwydd Artiffisial' fel 'ChatGPT' i helpu gyda chynhyrchu gohebiaeth yn Gymraeg. Mae technoleg yn ei gwneud hi'n haws i'n swyddogion ddysgu, defnyddio ac ymgysylltu â'r Gymraeg.

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Mae cyfieithu ar lein/Cysill wedi hwyluso cyfieithu er mae dal angen craffu'r cynnwys. Mae rhai swyddogion yn y gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd 'Deallusrwydd Artiffisial' fel 'ChatGPT' i helpu gyda chynhyrchu gohebiaeth yn Gymraeg. Mae angen cadw golwg weithiau as systemau "tu cefn" sydd ddim o hyd yn darparu elfennau yn y Gymraeg fel derbynebau a systemau llogi/tocynnau.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor: Rydym yn gweld cyfleon i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ein darpariaethau digidol. Er enghraifft o gydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru rydym yn sicrhau fod llyfrau llafar, e-lyfrau a Chylchgronau Cymraeg ar gael i'w benthg yn ddigidol trwy'r platfform digidol cenedlaethol.

Gellir defnyddio ein ap Llyfrgell drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ein holl dudalennau Cyfryngau Cymdeithasol.

Wrth gymryd rôl arweiniol yn nyfodiad LMS Cymru Gyfan bydd modd cloddio data ynghylch defnydd Cymru gyfan o adnoddau iaith Gymraeg. e.e Mae data Llyfrgell yn dangos fod benthyciadau llyfrau Cymraeg gan blant dan 7 oed yn aml yn goddiweddyd benthyciadau llyfrau Saesneg.

Mae modd defnyddio ein llwyfannau archebu tocynnau Neuadd Dwyfor a Digwyddiadau Llyfrgelloedd Gwynedd yn y Gymraeg

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Rhwystr wedi codi yn rheolaidd fod y ddarpariaeth cyfieithu ddim bob amser yn gweithio oddi ar MS Teams.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Rhai sialensau dal yn bodoli gyda defnydd o MS Teams i gynnal a chofnodi ein cyfarfodydd dwyieithog

**4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?
*Unrhyw ddata arall perthnasol***

Gwasanaeth Morwrol:

Ceisiadau Cofrestru Badau Pŵer 2025/26	
Iaith Cyflwyno	Nifer
Cymraeg	31
Saesneg	2384
Ceisiadau am Angorfa	
Iaith Cyflwyno	Nifer
Cymraeg	1
Saesneg	260

Mae nifer y ffurflenni a gwblhawyd yn Gymraeg drwy ein gwasanaeth ar-lein ym mlwyddyn 2025/26 yn isel, gyda ond 32 ffurflen wedi'u cwblhau yn Gymraeg allan o'r 2676 a gyflwynwyd, sef 1.2%, sydd ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (0.15%). Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y mwyafrif o berchnogion badau pŵer a dalwyr angorfeydd yn ymwelwyr.

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli: Ar hyn o bryd nid data rydym ni'n ei gasglu gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth yw hwn. Rydym yn bwriadu symud i system rheoli cwsmeriaid newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, felly gallai hyn fod yn bosibl yn y dyfodol agos. Amcangyfrifir bod llai na 20% o'n 440 o gwsmeriaid blynyddol yn Gymry a hyd yn oed llai yn siaradwyr Cymraeg.

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Mae nifer sydd yn mynychu gweithgareddau yn yr Amgueddfeydd yn y Gymraeg yn cael eu cadw. Mae oddeutu 3,500 wedi cymryd rhan er nid yw ffigyrau 2025/6 i gyd gennym ar hyn o bryd oherwydd yn aros am fanylion grantiau ayyb.

Rydym gyda cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar gyfer Facebook ac Instagram. Manylion defnyddwyr gwefan ddim ar gael gennym yn gyflawn i adrodd ar ffigwr.

Gwasanaeth Archifau: Yn ystod 2025-2026 cynhaliwyd 6 sesiwn / gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg gan y Gwasanaeth Archifau neu mewn cyd-weithrediad gyda Gymdeithas Hanes y sir gyda 235 yn mynychu.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Yn sgil y gwaith Llechi Cymru, a'r cynllun LleChi LleNi yn benodol mae'r isod ar waith:

- cofnodi data mynychwr gweithgareddau prosiectau mewn ysgolion, yn amlygu'r niferoedd oedd yn gwneud defnydd o adnoddau ac yn ymateb yn ddwyieithog.
- data ar gael o ddefnyddwyr yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar sianel You Tube Llechi Cymru.

Yn unol a monitro dewis iaith ffurflen cofrestru ar gyfer gweithgareddau, a cheisiadau am wasanaeth Cyfieithu ar y Pryd mewn cyfarfodydd, darlithoedd ac ati mae oddeutu 72% o'r

bobl sy'n ymwneud a gweithgarwch Llechi Cymru yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn sgil y gwaith o gydweithio a phartneriaid a dyrannu grantiau mae'n ofynnol i bob sefydliad sydd yn derbyn grant gydymffurfio gyda egwyddorion o Bolisi Iaith Cyngor Gwynedd, er enghraifft fod angen i bob arwydd gaiff ei harddangos yn gyhoeddus fod yn ddwyieithog a bod unrhyw ddeunydd marchnata, hyrwyddo a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

Gwasanaeth Datblygu'r Economi: O fewn y maes gwaith gefnogi busnesau, mae gofyn i bob busnes sydd yn gofyn am gymorth ariannol adrodd ar broffil iaith eu busnes. Dyma gipolwg o ymateb y busnesau yn gofyn am un o'n grantiau datblygu busnes diweddar:

Cymraeg i gyd	17 (15%)
Mwy o Gymraeg na Saesneg	13 (12%)
Cwbl Ddwyeithog	30 (28%)
Mwy o Saesneg na Chymraeg	40 (37%)
Saesneg i gyd	9 (8%)

O ran cefnogi pobl mae'r tîm yn asesu sgiliau ieithyddol pob un sydd yn derbyn cymorth ac yn cynnig cymorth a chefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg pan yn briodol.

Dyma dadansoddiad o ymateb yr unigolion cefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf (2025/26).

Deall Cymraeg	75%
Siarad Cymraeg	64%
Darllen Cymraeg	62%
Ysgrifennu Cymraeg	60%

Mae cynnig i phob un unigolyn â gefnogwyd i ddewis pa iaith maent yn dymuno i ni gyfathrebu â nhw. Dim ond 41% dewisodd i ni cyfathrebu â nhw drwy'r Gymraeg dros y flwyddyn diwethaf.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Eryri Mynyddoedd a mor

Niferoedd dilynwyr ar y cyfrifon Cymraeg (cyfnod Ebrill 1 2025 – Mawrth 31 2026):

Facebook – 2327

Instagram – 1406

X (Twitter) – 451

Rhaniad cefnogwyr Cynllun Llysgennad Gwynedd sydd wedi cwblhau y modiwl diwylliannol:

Drwy'r Saesneg: **239 Llysgennad Efydd**

Drwy'r Gymraeg: **20 Llysgennad Efydd**

(259 Llysgennad Efydd i gyd)

Mae'r modiwl yn ofynnol i bob Llysgennad gyrraedd lefel Efydd.

Mae yna 59 Llysgennad wedi cofrestru i ddechrau'r cwrs drwy'r Gymraeg (gyda 20 wedi cyrraedd lefel Efydd).

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae 90.6% o staff yr Adran wedi cwblhau Asesiad Iaith, gyda trefniadau mewn lle i'r gweddill fod unai yn cwblhau hunanasesiad neu asesiad rheolwr dros y misoedd nesaf. Mae canlyniadau'r Asesiad Iaith yn dangos fod 94.8% o staff yr Adran wedi cwrdd â dynodiad iaith eu swydd yn 2025/26. Mae trefniadau mewn lle i annog a chefnogi'r gweithwyr hynny sydd ddim eto yn cwrdd â'r gofynion i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y gweithle.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Gwelir isod rai enghreifftiau gan wasanaethau:

Gwasanaeth Morwrol: Mae rhai swyddogion o fewn gwasanaeth, oherwydd mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn siarad Saesneg gyda'i gilydd ar brydiau er ein hymdrechion i'w hannog a'u cymell i siarad Cymraeg. Mae'n anodd monitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn gyson ym mhob safle, ond mae'r mater yn cael sylw cyson i atgoffa pob swyddog o'r disgwyliadau. Mae pob cyfarfod tim yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn annog pob cwsmer sy'n ymweld â'n swyddfeydd i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg, ac rydym hefyd yn ymdrechu i ateb pob galwad ffôn gyda neges ddwyieithog. Mae neges o dan lofnod e-byst mwyafrif o staff y gwasanaeth yn croesawu unrhyw un i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg ac rydym wedi derbyn sylwadau cadarnhaol am hyn yn flaenorol.



Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu efo fi.
You are welcome to contact me in Welsh or English

Er ein bod yn ymdrechu i arddangos gwybodaeth yn ddwyieithog yn ein cyrchfannau arfordirol (mewn hysbysfyrddau neu swyddfeydd), yn anffodus, mae rhywfaint o wybodaeth neu ddeunydd ar gael yn Saesneg yn unig, megis llawlyfrau morwyr neu bosteri diogelwch. Rydym yn arddangos deunydd diogelwch y Bad Achub (RNLI) a mudiadau fel Diogelwch Dwr Cymru sydd ar gael yn y Gymraeg.

[Float to Live Toolkit: resources for download](#)

Mae tair gwaith yn fwy o bobl yn boddli'n ddamweiniol pan fydd y tymheredd yn codi uwchlaw 25°C

Arnofiwrch i Fyw: Os byddwch chi mewn trafferth yn y dŵr

- Parhauwch eich pen yn ôl gyda'ch clustiau dan y dŵr
- Ymlaciwch a cheisiwch anadlu yr un fath ag arfer
- Symudwch eich dwyllo a'ch coesau i'ch helpu i aros ar ben y dŵr
- Mae'n iawn os bydd eich coesau'n suddo: rydyn ni i gyd yn arnofio'n wahanol
- Unwaith y bydd eich anadlu dan reolaeth, galwch am help neu nofiwch i ddiogelwch

Ffoniwch, Dwedwch, Taflwch: Os gwelwch chi rywun arall mewn trafferth yn y dŵr

- **Ffoniwch** 999 i gael help
- **Dwedwch** wrth y person sy'n cael trafferth am arnofio ar eu cefi
- **Taflwch** rywbeth sy'n arnofio atyn nhw, fel cylch achub, tegau chwythu, neu botol.

Diogelwch Dŵr Cymru
Water Safety Wales

Mae sefydliadau allanol fel Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, Ty'r Drindod, Cymdeithas Harbwr Feistri y D.U. yn gohebu yn Saesneg yn unig, ac fel arfer dim ond drwy gyfrwng Saesneg y cynigir hyfforddiant arbenigol. Yn ogystal mae rhai dogfennau hefyd fel ein Cod Diogelwch Morol a'n hasesiadau risg wedi'u hysgrifennu yn Saesneg gan ei bod yn angenrheidiol rhannu a thrafod cynnwys y dogfennau hyn gyda sefydliadau allanol, megis Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, y 'Marine Accident Investigation Branch' neu'r HSE.

Mae rhai o swyddogion tymhorol y gwasanaeth heb gyfrif e-bost y Cyngor sy'n ei gwneud hi'n her sicrhau eu bod yn cwblhau hunanasesiad iaith, fodd bynnag rydym yn gweithio gyda Swyddog E-ddysgu'r Cyngor i geisio datrys y sefyllfa hon.

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli: Fel gyda'r gwasanaeth Morwrol mae sefydliadau allanol fel Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, Ty'r Drindod, Cymdeithas Harbwr Feistri y D.U. yn gohebu yn Saesneg yn unig, ac fel arfer dim ond drwy gyfrwng Saesneg y cynigir hyfforddiant arbenigol. Yn ogystal mae rhai dogfennau hefyd fel ein Cod Diogelwch Morol a'n hasesiadau risg wedi'u hysgrifennu yn Saesneg gan ei bod yn angenrheidiol rhannu a thrafod cynnwys y dogfennau hyn gyda sefydliadau allanol, megis Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, y 'Marine Accident Investigation Branch' neu'r HSE.

Mae pob aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg, er bod rhai yn llai hyderus. Gall recriwtio ar gyfer rhai swyddi gyda sgiliau morwrol penodol fod yn heriol.

Derbyniwyd un cwyn eleni gan nad oedd cwsmer wedi derbyn gohebiaeth yn ddwyieithog. Roedd camgymeriad wedi ei wneud yn yr achos yma, a threfniadau bellach mewn lle er mwyn osgoi achosion tebyg l'r dyfodol.

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Mae pob aelod o'r tim yn siarad Cymraeg. Yn y dyfodol fel all recriwtio i rai swyddi gyda sgiliau penodol fod yn heriol.

Nid yw'n bosib bob tro i weithio gydag artistiaid sydd yn siaradwyr Cymraeg. Os felly rydym yn eu cefnogi i gynnal y gweithgareddau gyda cymhorthydd sydd yn siarad Cymraeg. Hefyd rhoddir cyfle i'r artistiaid sy'n ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg os ydynt yn hyderus i wneud hynny. Mae cyllido cael cymhorthydd ychwanegol yn gallu bod yn her. Mae hi'n her hefyd ar adegau i rannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i ddiwylliant yng Ngwynedd ond nad ydynt ar gael yn ddwyieithog.

Mae gallu'r Gwasanaeth hefyd i ddenu gwirfoddolwyr iaith Gymraeg neu siaradwyr newydd yn parhau i fod yn heriol ac rydym yn ystyried y dulliau gorau o fedru denu a rheoli gwirfoddolwyr i'r gwasanaeth

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor: Mae mwyafrif llethol o'r gweithgareddau i blant a theuluoedd ac oedolion a gynhelir yn Llyfrgelloedd Gwynedd unai drwy'r Gymraeg yn unig neu gyda Chymraeg yn rhan ganolog ohonynt. Credwn mai trwy roi cyfle i bobl glywed a sgwrsio, a chymryd rhan trwy'r Gymraeg, y bydd y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gymunedol, fyw.

Dyma un dyfyniad gan fynychwyr - "The story sessions are the only exposure I have to Welsh nursery rhymes and Welsh stories."

Yn sgil sylw lle bu i siaradwyr newydd ofyn i gael ymuno a sesiwn stori i blant er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg, rydym wedi cychwyn grwpiau Paned a Sgwrs i siaradwyr newydd yn nifer o'n Llyfrgelloedd gan gynnwys Llyfrgell Abermaw, Tywyn, Cricieth, Bethesda a Caernarfon Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i gyflwyno deunyddiau ac adnoddau amrywiol sydd ar gael o'r llyfrgell.

Rydym wedi cychwyn sesiwn Ji-Babi-Bach yn wythnosol yn Llyfrgell Bethesda be mae cyfle i rieni siaradwyr newydd gymryd rhan mewn sesiynau Hwiangerddi Cymraeg

Credwn fod gwerth neilltuol o gynnal sesiynau yng nghorff y Llyfrgell fel bod y cyhoedd yn cael clywed yr iaith yn cael ei defnyddio mewn ffordd naturiol ac arferol ac fel bod cyfle i bawb gymdeithasu a chynnal ei gilydd.

Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gyda'r adnoddau hyn ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd a Llyfrgelloedd drwy Gymru. Trwy ein cydweithio ar lefel genedlaethol rydym yn sicrhau bydd rhyngwynebau Gymraeg yn ofyn hanfodol ym mhob tendr systemau a gwasanaethau digidol. Yn ystod mis Hydref a Tachwedd 2025, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg arolygon gwirio gwefannau hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad yn amlygu arferion da, yn ogystal â meysydd lle mae lle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y ddarpariaeth mae cwmnïau trydydd parti yn darparu ar ein rhan. Bu i'r adolygiad ganolbwyntio yn bennaf ar ein Catalog Llyfrgell ac ar lwyfan Borrowbox. Mae'r adroddiad yn cydnabod mai materion fel ambell air Saesneg yw'r diffyg cydymffurfiaeth ond mae swyddfa CYG o'r farn bod hynny'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac felly yn torri'r safonau. Rydym eisoes mewn trafodaeth hefo CIVICA – y cwmni sy'n darparu y Catalog fel rhan o LMS Cymru gyfan – ac yn gweithio ar ddatrysiad. Yn hanesyddol mae cwmni Borrowbox wedi bod yn gefnogol iawn i unrhyw ddarpariaeth Gymraeg, ond mae ambell i air Saesneg wedi ymddangos yn ddiweddar, felly byddwn yn cysylltu efo'r Cwmni gan ddisgwyl ymateb a datrysiad sydyn ganddynt ar gyfer holl awdurdodau cymru sy'n rhannu'r llwyfan.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Drwy waith Llechi Cymru mae canmoliaeth a gwerthfawrogiad gan fynychwyr i ymestyn geirfa a siarad Cymraeg Clir.

Nodyn ar y cyfryngau cymdeithasol yn gwerthfawrogi y mewnosodiadau llechi ar balmentydd Tywyn - *“Mae'r rhain yn arbennig o dda, geiriau hudolus yn nhafodiaith Bro Dysynni”*

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025: [Adran Economi a Chymuned.pdf](#)

Eitem 6

Adroddiad Tim Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023- 2033

Dyddiad	18/04/2026
Adran	Gwasanaethau Cyfreithiol
Awdur	Iwan G Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

e.e

Enw

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Blynyddoedd cynnar a dysgu):

Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd.

Crynodeb byr

Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn cydweithio gydag adrannau y Cyngor er mwyn cyfrannu at bolisïau, cynlluniau strategol, prosiectau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith.

Mae gan y Gwasanaethau Cyfreithiol gyfrifoldebau am:

Priodoldeb gan gynnwys rôl Swyddog Monitro

Gwasanaeth Cyfreithiol

Tim Etholiadau a Chofrestru Etholiadol

Cefnogaeth Crwner

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol:

Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) - Mae gan y Cyngor rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth ranbarthol ac mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi chwarae rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu'r partneriaethau hyn, e.e. y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer y Gogledd. Bellach wrth i'r gwasanaethau yma gael eu mewnoli credir fod y gwaith yma wedi cyfrannu sylfaen y gall aelodau y CBC adeiladu arno wrth symud ymlaen.

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfrannu at gefnogi a chynghori gwaith y Cyngor ar draws ei holl swyddogaethau . Yn ogystal darparu cyngor ac arweiniad i'r Cyngor, Cabinet a'i bwyllgorau ar faterion cyfansoddiadol a chyfreithiol. Mae yn bartner allweddol yn y cyflawni yma.

- **Gwasanaeth Crwner** - Er bod cyflawni Gwasanaeth Crwner yn fater sydd yn nwylo deilydd y swyddogaeth, mae sawl agwedd yn perthnasu ei hun i rôl y Gwasanaeth Cyfreithiol. Gan mai Gwynedd sy'n penodi'r Crwner a Chwneriaid Cynorthwyol, mae gennym ddylanwad sylweddol ar y gofynion ar gyfer y swyddi hyn. Golyga hyn ein bod wedi medru sicrhau fod y sawl sy'n cael eu penodi yn meddu ar y gallu i gyflawni eu dyletswyddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner sydd â throsolwg o'r trefniadau.
- **Gwasanaethau Etholiadol** - Mae'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol yn aelod o Grŵp Cynghori ar y Gymraeg Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraethau Cymru a San Steffan.
 - Amcan y Grŵp yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran deddfwriaeth a chanllawiau etholiadol. Mae hefyd yn rhannu arfer da mewn materion yn ymwneud â'r Gymraeg ar draws awdurdodau a sicrhau bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i staff gorsafoedd pleidleisio.
 - Ers sawl blwyddyn mae'r Uned Etholiadol wedi bod yn dwyn pwysau ar gyflenwr ein system reolaeth etholiadol i addasu'r system i alluogi cynhyrchu rhybuddion etholiadol dwyieithog. Gynt roedd rhai i ni baratoi'r rhybuddion ein hunain er mwyn sicrhau eu bod yn ddwyieithog. Bellach mae'r system yn medru cynhyrchu rhybuddion yn ddwyieithog a buom yn gweithio gyda'r cwmni i'w cynorthwyo i greu'r fersiynau Cymraeg o'r dogfennau.
 - Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r cwmni i gynhyrchu llythyrau dwyieithog i'w hanfon at etholwyr i'w hysbysu o'r newidiadau diweddar yn y drefn etholiadol e.e. y drefn gwneud cais am bleidleisiau post.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Dros y flwyddyn diwethaf mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi gweld cynnydd yn natblygiad technoleg a'r Gymraeg. Gellir cyfeirio at yr enghreifftiau isod:

Cyfreithiol - Mae lle i adlewyrchu ar y gwasanaeth a'r adnoddau ieithyddol sydd o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol megis dogfennau technegol sydd wedi eu creu gennym. Gall hwn fod yn adnodd i'w rannu'n allanol dan amodau priodol petai adnoddau'n caniatáu. Yn yr un modd, mae cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio technoleg rheoli achosion i'w llawn botensial ac i gefnogi darpariaeth drwy'r Gymraeg.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

e.e.

Blynyddoedd cynnar

1. *Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.*
2. *Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.*
3. *Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.*
4. *Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.*
5. *Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.*

Dysgu

1. Ystadegau monitro CSGA
2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor
4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuentid.

Gwaith a gwasanaeth

1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor
2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr

Y gymuned

1. Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau
2. Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi

Ymchwil a thechnoleg

1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor

Unrhyw ddata arall perthnasol

Nid yn addas i natur y gwasanaeth (h.y. cefnogi adrannau eraill y Cyngor).

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae 100% o staff Gwasanaethau Cyfreithiol (25) yn meddu ar y sgiliau i ddarparu holl ofynion y swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.. O gamu yn ôl o'r gwaith rhanbarthol nid oes gennym ddibyniaeth ar gyfreithwyr locwm i gynnal y gwasanaeth. Oni bai fod gofyn penodol dros dro yn codi nid oes rheswm i feddwl na ellir cynnal y lefel yma.

Mae'r Timoedd o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi manteisio ar Gynllun Yfory a' Prentisiaethau i gefnogi hyfforddi a datblygu staff o fewn y Tim Cyfreithiol ac Etholiadau yn llwyddiannus i ddatblygu staff newydd.

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

RHWYSTRAU

O bryd i'w gilydd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn comisiynu defnydd o weithwyr locwm a chyfreithwyr allanol er cyfarch gofynion am gapasiti neu arbenigedd penodol. Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn her sicrhau darpariaeth o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ar bob achlysur lle mae hyn yn bosib byddwn yn blaenoriaethu defnyddio unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr agwedd arall yw'r angen i gyflogi cyfreithwyr arbenigol lefel uchel sydd yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle'n bosib rydym yn cyfarwyddo cyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd yn meddu â'r sgiliau iaith. Mewn rhai achlysuron mae modd sicrhau gwasanaeth ar y lefel uchaf i roi cyngor neu farn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar faterion sydd un ai angen tîm ehangach, arbenigedd penodol neu faint prosiect mae sicrhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr yn anodd, os nad yn anymarferol. Mae'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi ar gytundebau fframwaith cenedlaethol ond, nid yw hwn yn ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwmnïau. Adlewyrchir hyn yn helaeth hyd yn oed o fewn cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru. Mae i'w nodi fod y gallu i gynnig gwasanaeth drwy'r Gymraeg yn ffactor sydd yn cael ei adlewyrchu mewn cwmnïau lleol i Gymru fwy fwy ac yn sicr yn datblygu. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyfarwyddo a derbyn cyngor cyfreithiol drwy'r Gymraeg.

Mae'r sefyllfa cyflogi yn benodol yn y maes cyfreithiol wedi gwella o ran denu a chadw staff mewn modd cynaliadwy. Rydym yn adeiladu ar hyn ac yn hyderus y gellir parhau i ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar Gynllun Yfory i ddatblygu staff yn fewnol unai drwy hyfforddeion proffesiynol neu brentisiaethau. Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd wedi ymdrechu i leihau allanoli gwaith. Yn gyffredinol llwyddwyd i wneud hynny. Pan oedd angen recriwtio, rydym wedi bod yn llwyddiannus ar ddenu cyfreithwyr sydd yn meddu'r Gymraeg yn rhugl.

Mae'n bwysig cydnabod fod Gwasanaeth Cyfreithiol Gwynedd yn unigryw bron ymhlith y 22 Awdurdod, gan feddu ar dîm lle gallai'r holl swyddogion ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn parhau ac nid yw'r materion a nodwyd wedi newid diwylliant nac ychwaith natur y Gwasanaeth.

Fel tim , byddwn yn parhau i hyrwyddo a manteisio ar bob cyfle a geir i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phriod le, nid yn unig yng ngwaith y Cyngor ond hefyd ar lefel cymunedol o fewn y Sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025: [Tm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol.pdf](#)